Archwilio Cymru
Audit Wales

# Adolygiad o'r Gwasanaeth Cynllunio – Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent

Blwyddyn archwilio: 2022–23

Dyddiad cyhoeddi: Mai 2023

Cyfeirnod y ddogfen: 3571A2023

Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer defnydd mewnol gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn rhan o waith a gyflawnwyd/gyflawnir yn unol ag Adran 17 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, ac Adran 15 o Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Nid yw Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb o ran unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog, neu gyflogai arall yn eu rhinwedd unigol, neu unrhyw drydydd parti.

Os bydd cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddo, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.
Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn cysylltiad â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

This document is also available in English.

# Cynnwys

Mae perfformiad y Pwyllgor Cynllunio yn gwella, ac mae'r gwasanaeth cynllunio yn chwarae rhan allweddol wrth alluogi amcanion corfforaethol y Cyngor i gael eu cyflawni, ond nid yw cynllunio busnes ac adroddiadau perfformiad y gwasanaeth yn dangos y cyfraniad pwysig hwn.


Crynodeb 4

Adroddiad manwl

Mae proffil y gwasanaeth cynllunio yn y Cyngor yn gwella gyda'r gwasanaeth bellach yn cael ei ystyried yn alluogwr allweddol i gyflawni amcanion corfforaethol y Cyngor. 7

Nid yw'r cynllun busnes Datblygu ac Ystadau yn adlewyrchu swyddogaeth strategol y gwasanaeth cynllunio ac, oherwydd bod gan y cynllun ddiffyg data perfformiad, nid yw'r gwasanaeth cynllunio yn adrodd ei berfformiad yn ddigonol. 9

Mae swyddogion yn y gwasanaeth cynllunio yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda. Mae strwythur cyfarfod tîm da a llif cyfathrebu da sy'n arwain at ddull 'un tîm' cadarnhaol 11

Mae perfformiad y Pwyllgor Cynllunio yn gwella ond mae angen i'r gwasanaeth gynyddu cyflymder ei adolygiad o drefniadau llywodraethu y pwyllgor 13

Atodiad 1 17

# Crynodeb

## Crynodeb

### Yr hyn a adolygwyd gennym a pham

1 Mae gwasanaethau cynllunio y cyngor yn alluogwyr strategol bwysig sy'n tanategu llawer o ddatblygiadau mawr a phwysig, gan gynnwys adeiladu ysgolion newydd a datblygu cartrefi gofal. Gall y datblygiadau hyn helpu cynghorau i gyflawni eu hamcanion a'u huchelgeisiau corfforaethol.

2 Gan ei fod yn Awdurdod Cynllunio Lleol, mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent (y Cyngor) swyddogaeth hanfodol i'w chwarae wrth nodi anghenion datblygu; pa feysydd y mae angen eu diogelu neu eu gwella; ac wrth asesu a yw datblygiad arfaethedig yn unol â pholisïau lleol a chenedlaethol.

3 Gwnaethom gynnal yr adolygiad hwn o wasanaeth cynllunio y Cyngor yn rhan o'n Cynllun Archwilio'r Cyngor ar gyfer 2022–23. Ceisiodd yr adolygiad ddarparu sicrwydd a mewnwelediad ynghylch a yw gwasanaeth cynllunio y Cyngor yn cyflawni ei amcanion yn effeithiol ac yn gynaliadwy ac yn cyfrannu tuag at gyflawni blaenoriaethau corfforaethol y Cyngor. Roedd y gwaith hwn yn cynnwys adolygiad o berfformiad y gwasanaeth cynllunio.

4 Cynhaliwyd yr adolygiad gennym ym mis Chwefror 2023. Yn ystod ein hadolygiad, nodwyd yn ystod y 12–18 mis diwethaf, y bu nifer o newidiadau mewn personél mewn swyddi allweddol sy'n gyson â'r gwasanaeth cynllunio a'r Pwyllgor Cynllunio ac sy'n eu cefnogi. Y newidiadau yw:

- Aelod o'r Cabinet;
- Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio;
- Swyddog Cymorth Cyfreithiol y Pwyllgor Cynllunio;
- Cyfarwyddwr Adfywio a Chymunedau;
- Rheolwr Tîm—Rheoli Datblygu (Cynllunio);
- Rheoli Datblygu (Cynllunio) Arweinwyr Tîm;
- Swyddogion Cynllunio;
- Swyddog Gorfodi; a
- Rheolwr Polisïau Cynllunio.

### Yr hyn a ganfuwyd gennym

5 Ceisiodd ein hadolygiad ateb y cwestiwn: A yw gwasanaeth cynllunio yn cyflawni ei amcanion yn effeithiol ac yn gynaliadwy ac yn cyfrannu tuag at gyflawni blaenoriaethau corfforaethol y Cyngor.
Ar y cyfan, canfuom fod perfformiad y Pwyllgor Cynllunio yn gwella, a bod y gwasanaeth cynllunio yn chwarae rhan allweddol wrth alluogi amcanion corfforaethol y Cyngor i gael eu cyflawni, ond nad yw cynllunio busnes ac

adroddiadau perfformiad y gwasanaeth yn dangos y cyfraniad pwysig hwn. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- mae proffil y gwasanaeth cynllunio yn y Cyngor yn gwella gyda'r gwasanaeth bellach yn cael ei ystyried yn alluogwr allweddol i gyflawni amcanion corfforaethol y Cyngor;
- nid yw'r cynllun busnes Datblygu ac Ystadau yn adlewyrchu swyddogaeth strategol y gwasanaeth cynllunio ac, oherwydd bod gan y cynllun ddiffyg data perfformiad, nid yw'r gwasanaeth cynllunio yn adrodd ei berfformiad yn ddigonol;
- mae swyddogion yn y gwasanaeth cynllunio yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda. Mae strwythur cyfarfod tîm da a llif cyfathrebu da sy'n arwain at ddull 'un tîm' cadarnhaol
- mae perfformiad y pwyllgor cynllunio yn gwella ond mae angen i'r gwasanaeth gynyddu cyflymder ei adolygiad o drefniadau llywodraethu y pwyllgor.

## Argymhellion

**Arddangosyn 1: argymhellion**

Mae'r tabl isod yn cynnwys yr argymhellion a nodiwyd gennym yn sgil yr adolygiad hwn.

| **Argymhellion** | |
|---|---|
| A1 | Cynnwys mesurau perfformiad yn y cynllun busnes Datblygu ac Ystadau i ddangos uchelgeisiau perfformiad y gwasanaeth ac i alluogi'r gwaith o fonitro'r gwasanaeth yn effeithiol |
| A2 | Cynnwys cyfraniad y gwasanaeth tuag at gyflawni amcanion corfforaethol y Cyngor er mwyn dangos ei swyddogaeth alluogi bwysig yn y cynllun busnes Datblygu ac Ystadau |
| A3 | Mae angen i'r Cyngor sicrhau ei hun bod gan y gwasanaeth cynllunio drefniadau ansawdd data cadarn i sicrhau ei fod yn adrodd data perfformiad cywir fel y gall staff, aelodau, Llywodraeth Cymru a'r cyhoedd ddibynnu ar ei gywirdeb i wneud penderfyniadau cywir a gwybodus. |

| Argymhellion | |
|---|---|
| A4 | Dylai'r Cyngor Llawn ystyried canlyniad adolygiad y cynllun dirprwyo a'r protocol cynllunio erbyn mis Medi 2023 a phenderfynu ar drefniadau llywodraethu cynllunio yn y dyfodol |

# Adroddiad manwl

## Mae perfformiad y Pwyllgor Cynllunio yn gwella, ac mae'r gwasanaeth cynllunio yn chwarae rhan allweddol wrth alluogi amcanion corfforaethol y Cyngor i gael eu cyflawni, ond nid yw cynllunio busnes ac adroddiadau perfformiad y gwasanaeth yn dangos y cyfraniad pwysig hwn

### Mae proffil y gwasanaeth cynllunio yn y Cyngor yn gwella gyda'r gwasanaeth bellach yn cael ei ystyried yn alluogwr allweddol i gyflawni amcanion corfforaethol y Cyngor

6 O ran cefnogi'r Cyngor i gyflawni ei uchelgeisiau corfforaethol, mae swyddogaeth a phroffil y gwasanaeth cynllunio (Rheoli Datblygu a Pholisïau Cynllunio) yn gwella. Yn hanesyddol, roedd gan y gwasanaeth broffil cymharol isel ac roedd gwasanaethau a chyfarwyddiaethau yn hwyr yn ymgysylltu â'r gwasanaeth cynllunio ar ddatblygiadau prosiect mawr. Yn 2022, penododd y Cyngor Gyfarwyddwr newydd ar gyfer Adfywio a Chymunedau. Mae'r penodiad hwn wedi codi proffil y gwasanaeth cynllunio yn gorfforaethol, a'i bwysigrwydd fel galluogwr i'r Cyngor gyflawni ei flaenoriaethau. Mae'r gwasanaeth cynllunio bellach yn cyfrannu ar gam cynharach yn ystod prosiectau mawr i helpu i gadarnhau a yw prosiect yn ymarferol ac i gynghori ar bolisïau cynllunio lleol a chenedlaethol perthnasol. Mae hyn yn golygu bod y Cyngor yn derbyn cyngor cynllunio proffesiynol ar yr adeg briodol cyn gwario adnoddau ar ddatblygiad mawr efallai na fyddai'n bodloni polisïau cynllunio perthnasol.

7 Cyflawnir yr ymgysylltu cynnar hwn drwy gynrychiolaeth y gwasanaeth cynllunio ar weithgor Rheoli Asedau Corfforaethol, tîm Prosiectau Mawr Corfforaethol a threfniadau cyfarfod tîm gwell yn y gyfarwyddiaeth Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol. Mae'r berthynas waith rhwng gwasanaethau yn y gyfarwyddiaeth hon wedi symud i ddull cydweithredol o dan y Cyfarwyddwr Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol newydd. Mae'r Cyfarwyddwr yn sicrhau bod cysylltiadau rhwng gwasanaethau yn y gyfarwyddiaeth yn gryf. Mae gwell cyfathrebu drwy newidiadau i strwythurau cyfarfodydd tîm yn arwain at well dealltwriaeth o swyddogaethau a blaenoriaethau y gwahanol wasanaethau yn y gyfarwyddiaeth honno.

8 Gweithgor corfforaethol y Cyngor sy'n ymdrin â'r holl faterion sy'n ymwneud ag eiddo ac sy'n arwain ar brosiectau strategol allweddol ar gyfer y Cyngor yw gweithgor Rheoli Asedau Corfforaethol. Ar adeg ein gwaith maes, roedd y prosiectau strategol hyn yn canolbwyntio ar y Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol, y model gweithredu newydd a'r agenda ddatgarboneiddio. Mae cynrychiolaeth y gwasanaeth cynllunio ar weithgor Rheoli Asedau Corfforaethol a'r tîm Prosiectau

DRAFFT

Mawr Corfforaethol yn rhoi'r gwasanaeth ar flaen y gad o ran datblygu prosiectau mawr.

9 Wrth symud ymlaen, mae'r rhai yn y gwasanaeth cynllunio yn credu ei fod mewn sefyllfa dda i hybu uchelgeisiau'r Cyngor, er enghraifft galluogi cymunedau cysylltiedig. Bydd gan y gwasanaeth swyddogaeth allweddol hefyd wrth fwrw ymlaen ag agenda ddatgarboneiddio y Cyngor, yn gorfforaethol ac yn y gymuned ehangach. Er enghraifft, drwy annog a chefnogi ceisiadau cynllunio carbon isel sy'n defnyddio technoleg newydd neu'n gwneud pethau mewn ffordd sy'n fwy ecogyfeillgar.

10 Mae gan y tîm Polisïau Cynllunio swyddogaeth ganolog wrth siapio polisïau cynllunio lleol ar gyfer y Fwrdeistref Sirol yn y dyfodol. Mae'r tîm Polisïau Cynllunio yn gyfrifol am lunio a monitro'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl).[1] Mae'r Cynllun hwn yn llywio datblygiad ac yn nodi'r dyfodol hirdymor i'r Fwrdeistref Sirol. Mae'n amlinellu sut y gall y Cyngor sicrhau bod twf yn cael ei gyflawni yn y mannau cywir ac yn cynghori sut y bydd y twf yn ystyried anghenion cymunedau lleol. Mae'r CDLl yn sail i benderfyniadau cynllunio a wneir gan y Cyngor a, phan fo hynny'n bosibl, mae'n cysylltu â nodau'r Cynllun Corfforaethol.

11 Mabwysiadodd y Cyngor ei CDLl presennol ym mis Tachwedd 2012. Yn 2018, cymeradwyodd Llywodraeth Cymru Gytundeb Cyflawni gyda'r Cyngor ar ei CDLl Newydd. Fodd bynnag, oedwyd yr holl waith mewn cysylltiad ag ymgynghoriad cyhoeddus oherwydd y pandemig. Hefyd, profodd y Cyngor oediadau oherwydd salwch staff, ymddeoliadau a phroblemau recriwtio. Arweiniodd yr oediadau hyn at amserlen Cytundeb Cyflawni diweddaredig gyda Llywodraeth Cymru. Yn y cyfamser, mae'r CDLl presennol yn parhau i fod yn ddilys. Ar adeg ein gwaith maes, roedd y tîm Polisïau Cynllunio wedi ei staffio'n llawn ac mae trefniadau i fabwysiadu'r CDLl newydd yn ffurfiol yn gynnar yn 2025.

12 Mae llunio'r CDLl yn ddwys o ran amser ac yn gostus. Mae'r Cyngor wedi neilltuo cronfa CDLl bwrpasol i ariannu datblygiad y CDLl newydd. Mae'r Aelodau'n ymwybodol o'r costau ychwanegol y bydd datblygu'r cynllun yn eu dwyn ac mae'r Cyngor yn hyderus bod cyllid digonol yn cael ei neilltuo i dalu'r costau hynny.

13 Ar hyn o bryd, y swyddogion cyllid sy'n pennu'r targedau incwm ar gyfer y gwasanaeth cynllunio. Ond mae lle i uwch-swyddogion yn y gwasanaeth cynllunio gymryd mwy o ran yn y broses hon. Mae eu hymwybyddiaeth o brosiectau adfywio a phrosiectau datblygu mawr posibl yn golygu eu bod mewn sefyllfa dda i amcangyfrif y ffioedd cynllunio cysylltiedig posibl ac i gyfrannu at gynllunio ariannol mwy cywir.

[1] Cynlluniau Datblygu Lleol—Cymorth Cynllunio Cymru

## Nid yw’r cynllun busnes Datblygu ac Ystadau yn adlewyrchu swyddogaeth strategol y gwasanaeth cynllunio ac, oherwydd bod gan y cynllun ddiffyg data perfformiad, nid yw’r gwasanaeth cynllunio yn adrodd ei berfformiad yn ddigonol

14 Mae’r pwyslais i’r tîm Polisïau Cynllunio yng Nghynllun Busnes Datblygu ac Ystadau 2022–27 (cynllun busnes) yn glir. Mae angen i’r tîm ‘adolygu, datblygu a gweithredu CDLl newydd’. Mae camau gweithredu critigol gydag amserlenni hefyd yn glir, gan arwain at CDLl newydd mabwysiedig yng ngwanwyn 2025. Mae hwn yn ddarn cadarnhaol a sylweddol o waith a fydd yn llywio datblygiadau yn y Fwrdeistref Sirol yn y dyfodol.

15 Fodd bynnag, nid oes manylion yn adran gwasanaeth cynllunio y cynllun busnes. Er bod y gwasanaeth cynllunio bellach yn cael ei gynrychioli a’i wreiddio yn y dull corfforaethol o ystyried a chyflawni datblygiadau mawr mewn prosiectau ac eiddo, nid yw swyddogaeth y gwasanaeth fel galluogwr allweddol yn y broses hon yn cael ei hadlewyrchu yng nghynllun busnes y gwasanaeth. Ni allwn benderfynu uchelgeisiau a pherfformiad y gwasanaeth a’r swyddogaeth sylweddol sydd ganddo yn gorfforaethol o’r cynllun busnes.

16 Mae dau amcan i’r gwasanaeth cynllunio ‘gyflawni a gwreiddio meddalwedd cefn swyddfa Idox newydd’ a ‘chyflawni gwelliannau y cytunwyd arnynt’ megis cynllun dirprwyo a phrotocol cynllunio y Pwyllgor Cynllunio. Mae’r ddau amcan hyn yn canolbwyntio ar agweddau gweithredol ar y gwasanaeth ac nid ydynt yn cyfleu’r swyddogaeth bwysig sydd gan y gwasanaeth yn gorfforaethol.

17 Mae’r cynllun busnes hefyd yn brin o fanylion am dargedau perfformiad y gwasanaeth cynllunio ac unrhyw ddata llinell sylfaen am berfformiad. Er y dywedwyd wrthym fod yr hepgoriad hwn yn fwriadol fel y gall swyddogion ganolbwyntio ar weithredu’r feddalwedd TG Idox newydd, nid yw’n rhoi targed i swyddogion anelu ato, er enghraifft, amseroldeb wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio neu ymchwilio i achosion gorfodi. Mae trefniadau rheoli perfformiad y Cyngor yn seiliedig ar ei gynlluniau busnes. Felly, er bod y gwasanaeth cynllunio yn deall ei berfformiad cyfredol a hanesyddol, nid yw’r diffyg data yn y cynllun busnes yn ei gwneud yn bosibl i adrodd yn ehangach ar y perfformiad hwnnw.

18 Nid yw’r gwasanaeth cynllunio yn cynllunio ymlaen yn ddigonol. Mae’r templed cynllun busnes yn cwmpasu pum mlynedd, ond eto ar gyfer y gwasanaeth cynllunio, dim ond camau gweithredu ar gyfer 2022–23 sydd ar gael. Yn ystod ein gwaith maes, roeddem yn deall pwysigrwydd a manteision i’r gwasanaeth a’r trigolion o weithredu system Idox, ond nid yw’r gwasanaeth wedi edrych y tu hwnt i hyn yn y Cynllun Busnes. Mae’r gwasanaeth yn colli cyfle i ddatgan ei gyfraniadau’n glir yn y dyfodol, sut mae’n integreiddio ac yn cymryd rhan ar lefel strategol.

19 Yn y pen draw, nid yw’r cynllun busnes yn sbarduno’r gwasanaeth cynllunio. Nid yw’n gyson â’r amcanion corfforaethol ac mae’r diffyg dyheadau perfformiad yn ei gwneud yn anodd monitro’r gwasanaeth yn effeithiol a dwyn swyddogion i gyfrif.

20 Mae’r Pwyllgor Cynllunio yn cael adroddiadau ar berfformiad y gwasanaeth cynllunio mewn cysylltiad â chwpl o ddangosyddion cenedlaethol a bennwyd gan Lywodraeth Cymru. Ym mis Gorffennaf 2022 ar gyfer y cyfnod rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr 2021 yr oedd yr adroddiad diweddaraf i’r Pwyllgor. Roedd yr adroddiad hwn yn cynnwys y data cymharol diweddaraf sydd ar gael[2]. Fodd bynnag, mae’r gwasanaeth yn parhau i gasglu a chyflwyno data perfformiad i Lywodraeth Cymru ar gyfer pob chwarter. Felly, er bod diffyg data a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru yn effeithio ar allu’r gwasanaeth cynllunio i feincnodi ei berfformiad o’i gymharu ag eraill, ni ddylai atal y gwasanaeth rhag adrodd ar ei berfformiad ei hun a’i gymharu dros amser. Gellir gweld crynodeb o’r perfformiad diweddar yn Atodiad 1.

21 Wrth adolygu’r pedwar datganiad chwarterol diweddaraf i Lywodraeth Cymru, canfuom dri achos o adrodd perfformiad yn anghywir i Lywodraeth Cymru. Mae’r achosion o adrodd perfformiad yn anghywir yn ymwneud â: canran y penderfyniadau a wnaed gan Aelodau yn erbyn cyngor gan swyddog yn ystod chwarter 1 o 2022–23; a chanran yr achosion gorfodi yr ymchwiliwyd iddynt o fewn 84 diwrnod yn ystod chwarter 4 o 2021–22 a chwarter 1 2022–23. Er nad yw’r Cyngor wedi adrodd ar ei berfformiad yn ddigonol, mae gennym bryderon yn awr ynghylch cywirdeb data perfformiad y gwasanaeth cynllunio, cywirdeb ei ddata a’i drefniadau sicrhau ansawdd, ac a yw’n adrodd gwybodaeth gywir i Lywodraeth Cymru, yr aelodau a’r cyhoedd. Dywedodd y Cyngor wrthym y bydd system Idox newydd, y mae’n rhagweld y bydd yn ‘mynd yn fyw’ yn gynnar yn 2024, yn helpu i leihau’r risg o wallau adrodd a chofnodi perfformiad yn y dyfodol. Mae gan system Idox alluoedd rheoli perfformiad cynhenid a fydd yn symleiddio’r prosesau presennol ac yn lleihau’r risg o wallau yn deillio o’r broses bresennol o drosglwyddo data rhwng gwahanol systemau â llaw. Mae’r data perfformiad yn Atodiad 1 yn dangos y data cywir.

22 Ni welsom unrhyw waith craffu diweddar ar y perfformiad cynllunio. ‘Er gwybodaeth’ ac nid ar gyfer gwaith craffu y mae adroddiadau perfformiad y gwasanaeth i’r Pwyllgor Cynllunio. Oherwydd nad yw adroddiadau perfformiad chwarterol y gyfarwyddiaeth yn cynnwys llawer o ddata ar gynllunio, cyfyngedig yw gwaith adrodd ar berfformiad y gwasanaeth y tu hwnt i’r Pwyllgor Cynllunio. Yn flaenorol, lluniodd y gwasanaeth cynllunio adroddiad perfformiad blynyddol a oedd yn cynnwys ystod o fesurau perfformiad a gymharai’r perfformiad â’r flwyddyn flaenorol a chyfartaledd Cymru. Fodd bynnag, ar gyfer 2018–19 y mae’r adroddiad diweddaraf sydd ar gael ar wefan y Cyngor[3]. Mae’r diffyg adrodd ar berfformiad yn

[2] Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi crynodeb o’r ffurflenni arolwg chwarterol rheoli datblygu gan Awdurdodau Cynllunio Lleol ar ei gwefan. Ond ar gyfer mis Hydref i fis Rhagfyr 2021 y mae’r datganiad diweddaraf a gyhoeddwyd.

[3] Oherwydd COVID-19, nid oedd yn rhaid i Awdurdodau Cynllunio Lleol gyhoeddi adroddiad perfformiad blynyddol ar gyfer 2019–20 na 2020–21. Ni luniodd y gwasanaeth Cynllunio adroddiad ar gyfer 2021–22 oherwydd na chyhoeddwyd data cymharol a oedd ar gael ar gyfer y flwyddyn gyfan.

peri risg na chaiff perfformiad ei fonitro. Nid oes gan y rhai y tu allan i'r gwasanaeth sicrwydd bod y gwasanaeth yn perfformio yn ôl y disgwyl, neu nid oes ganddynt gyfle i nodi ac, os oes angen, i graffu ar feysydd perfformiad gwael mewn modd amserol.

## Mae swyddogion yn y gwasanaeth cynllunio yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda. Mae strwythur cyfarfod tîm da a llif cyfathrebu da sy'n arwain at ddull 'un tîm' cadarnhaol

23 Yn dilyn sawl ymadawiad staff yn ystod y blynyddoedd diwethaf a arweiniodd at faterion capasiti, recriwtiodd y Cyngor yn llwyddiannus i'r swyddogaethau gwag. Mae'r gwasanaeth cynllunio a'r tîm Polisïau Cynllunio bellach wedi eu staffio'n llawn.

24 Gall nifer a math y ceisiadau cynllunio a gyflwynir i'r gwasanaeth amrywio drwy gydol y flwyddyn ac mae uwch-swyddogion yn y gwasanaeth yn sicrhau bod gan swyddogion cynllunio lwyth achosion hylaw. Mae gan bob swyddog cynllunio lwyth achosion unigol a chaiff ceisiadau eu dosbarthu'n gyfartal. Er bod gan swyddogion gorfodi llwythi achosion mwy ac ôl-groniad o achosion, mae uwch-swyddogion yn monitro hyn yn fanwl. Mae'r gwasanaeth wedi defnyddio ymgynghorwyr allanol yn y tymor byr o'r blaen i fynd i'r afael â chynnydd mewn llwythi achosion y swyddogion ac i leihau unrhyw bwysau ar y staff. Bydd uwch-swyddogion yn ymgysylltu eto ag ymgynghorwyr os bydd llwythi achosion yn cynyddu i lefel sy'n anghynaladwy i'r swyddogion. Mae'r swyddogion yn gwerthfawrogi'r gefnogaeth hon.

25 Dywedodd swyddogion wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan uwch-swyddogion. Mae uwch-swyddogion yn caniatáu ymreolaeth ac yn ymddiried yn y staff. Er enghraifft, cyflwynodd y gwasanaeth drefniadau newydd y llynedd er gyfer cymeradwyo ceisiadau cynllunio. Yn awr, gall swyddogion cynllunio gydlofnodi ceisiadau aelwydydd ei gilydd. Mae arweinwyr tîm neu reolwr y tîm yn cydlofnodi ceisiadau ar gyfer y rhai nad ydynt yn ddeiliaid tai. Mae'r dull hwn yn meithrin hyder ymhlith y staff.

26 Mae cyfathrebu a strwythur cyfarfod tîm mewnol da y mae'r staff yn eu gwerthfawrogi. Mae rheolwr y tîm ac arweinwyr y tîm yn cyfarfod yn wythnosol i drafod prosiectau, llwythi gwaith ac ati yn y dyfodol. Hefyd, mae'r gwasanaeth yn cynnal cyfarfodydd cynllunio a chyfarfodydd gorfodi bob pythefnos i drafod unrhyw geisiadau cynllunio neu achosion gorfodi cymhleth. Cynhelir cyfarfodydd tîm llawn bob pythefnos sy'n cynnwys swyddogion cynllunio, swyddogion gorfodi a thechnegwyr cynllunio. Bob chwe wythnos, mae'r tîm llawn yn cwrdd wyneb yn wyneb ar gyfer cyfarfod dal i fyny ffurfiol ac anffurfiol. Mae'r trefniadau hyn yn datblygu dull 'un tîm' cryf.

27 Mae'r swyddogion yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gydag unrhyw anghenion hyfforddi. Gofynnir yn aml i swyddogion a oes unrhyw fylchau mewn gwybodaeth, unrhyw ofynion hyfforddi, neu bynciau y gallent fod eisiau dysgu mwy amdanynt. Mae cydnabyddiaeth yn y gwasanaeth bod gwybodaeth wedi ei cholli wrth i rai

aelodau staff mwy profiadol ymddeol neu adael, felly anogir swyddogion presennol yn weithredol i ddysgu a datblygu.

28 Nid oes pwysau gormodol ar swyddogion cynllunio i benderfynu ar geisiadau mewn ffordd benodol. Yn y cyfarfodydd cynllunio, mae swyddogion yn trafod rhinweddau cais o'u cymharu â pholisïau cynllunio lleol a chenedlaethol ac maent yn ystyried safbwyntiau gwahanol eu cydweithwyr. Mae swyddogion o'r farn bod y trefniant hwn yn ddefnyddiol oherwydd y gall polisïau cynllunio fod yn oddrychol o bryd i'w gilydd.

29 Er bod y swyddogion yn cydweithio'n dda ac yn dangos ymrwymiad cryf i'r gwasanaeth, mae rhwystredigaeth bod y system TG bresennol yn drwsgl ac nad yw ar gyfer y cyhoedd, sy'n cynhyrchu gwaith ychwanegol i swyddogion. Y Cyngor yw'r unig Awdurdod Cynllunio Lleol yng Nghymru nad oes ganddo swyddogaeth chwilio am geisiadau cynllunio ar ei wefan. O ganlyniad i hynny, nid yw ceisiadau cynllunio a dogfennau ategol ar gael i'w gweld ar-lein. Mae'n rhaid i bartïon sydd â diddordeb ofyn am y rhain drwy ffonio, e-bostio neu ysgrifennu i'r gwasanaeth. Nid yw'r system TG sylfaenol yn caniatáu i sylwadau o gefnogaeth neu wrthwynebiad gael eu gwneud yn uniongyrchol ar y system. Mae'n rhaid i rywun sy'n dymuno gwneud sylwadau ar gais cynllunio anfon sylwadau i'r gwasanaeth drwy lythyr neu e-bost. Mae'n cymryd llawer o amser i drigolion a swyddogion ofyn am wybodaeth sy'n ymwneud ag unrhyw gais cynllunio, ac i anfon yr wybodaeth honno. O ganlyniad i hynny, nid yw'r Cyngor yn cynnwys y cyhoedd yn ddigonol drwy ei alluogi i weld y ceisiadau y mae'r gwasanaeth yn eu hystyried.

30 Yn 2022, sicrhaodd y Cyngor system TG cynllunio newydd gan ddefnyddio ffioedd cynllunio a gynhyrchir gan gais cynllunio mawr yn y Fwrdeistref Sirol. Erbyn dechrau 2024, mae'r gwasanaeth yn bwriadu gweithredu system Idox. Meddalwedd rheoli datblygu (cynllunio) a gydnabyddir gan y diwydiant yw hon. Bydd y gweithrediad yn gwella'r swyddogaeth gynllunio ar wefan y Cyngor a'r ymarferoldeb cefn swyddfa i swyddogion. Disgwylir i'r feddalwedd leihau ailadrodd, dileu'r angen i staff ymateb i ymholiadau a chwblhau tasgau gweinyddol. Yn ei thro, bydd y system newydd yn creu capasiti ychwanegol yn y tîm drwy ryddhau amser swyddogion.

31 Mae paratoi i gyflwyno'r feddalwedd yn effeithio ar gapasiti a llwyth gwaith y staff yn y tymor byr. Mae swyddog cynllunio a swyddog gorfodi yn gweithio ar weithredu'r system newydd, sy'n cynnwys cwblhau ymarfer glanhau data cynhwysfawr. Mae'r cyfranogiad hwn yn arwain at yr angen i leihau eu llwythi achos, ac angen i gydweithwyr fodloni'r galw. Mae uwch-reolwyr yn monitro'r capasiti yn agos ac maent yn barod i ymgysylltu ag ymgynghorydd allanol os oes angen.

## Mae perfformiad y Pwyllgor Cynllunio yn gwella ond mae angen i'r gwasanaeth gynyddu cyflymder ei adolygiad o drefniadau llywodraethu y pwyllgor

32 Un rheswm allweddol dros adolygu gwasanaeth cynllunio y Cyngor oedd y nifer hanesyddol uchel o benderfyniadau a wnaed gan aelodau yn groes i argymhellion swyddogion. Mae hwn yn un o nifer o ddangosyddion cenedlaethol ar gyfer cynllunio y mae Awdurdodau Cynllunio Lleol yn eu hadrodd i Lywodraeth Cymru[4]. Ar gyfer 2018–19 y mae'r wybodaeth ddiweddaraf a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru[5] am berfformiad blynyddol Cymru. Y flwyddyn honno, roedd perfformiad y Cyngor o 28.6% (Canran yr Aelodau a wnaeth benderfyniadau yn erbyn cyngor swyddogion) yn sylweddol waeth na chyfartaledd Cymru o 9.2%, a daeth y Cyngor i'r 24ain safle allan o 25 o Awdurdodau Cynllunio Lleol.

33 Er nad yw Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi adroddiad blynyddol ers 2018–19, mae'r Awdurdodau Cynllunio Lleol yn cyflwyno ffurflenni perfformiad chwarterol i Lywodraeth Cymru. Ar gyfer mis Hydref–mis Rhagfyr 2021 (Chwarter 3, 2021–22) y mae'r data cyhoeddus ac y gellir eu cymharu diweddaraf sydd ar gael. Hefyd, anfonodd gwasanaeth cynllunio y Cyngor eu ffurflenni chwarterol atom ar gyfer cyfnod mis Hydref 2021 hyd fis Medi 2022 (Chwarter 3, 2021–22 hyd Chwarter 2, 2022–23). Gyda'r ddwy ffynhonnell ddata hyn, gallwn weld perfformiad y Cyngor hyd at fis Medi 2022. Mae Arddangosyn 2 isod yn rhoi trosolwg o'r perfformiad o ran aelodau'n gwneud penderfyniadau yn groes i argymhellion swyddogion.

34 Fel y dangosir yn Arddangosyn 2, parhaodd penderfyniadau aelodau yn groes i argymhellion swyddogion yn uchel ac yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol hyd at a chan gynnwys Chwarter 4, 2021–22. Mae gostyngiad sylweddol mewn aelodau yn gwneud penderfyniadau yn groes i argymhelliad swyddogion yn Chwarter 1, 2022–23. Ni wnaeth aelodau unrhyw benderfyniadau yn groes i argymhellion swyddogion yn ystod Chwarter 2, 2022–23. Rydym o'r farn y gellir priodoli'r gostyngiad amlwg yn nifer yr aelodau a wnaeth benderfyniadau yn groes i gyngor swyddogion i greadigaeth y Pwyllgor Cynllunio newydd yn dilyn yr etholiadau llywodraeth leol ym mis Mai 2022.

35 Cafodd y Pwyllgor Cynllunio blaenorol nifer o geisiadau cynllunio a alwyd i'r pwyllgor gan aelodau ward lleol. Argymhellodd swyddogion fod llawer o'r ceisiadau hyn wedi eu gwrthod oherwydd, yn eu barn broffesiynol, nad oeddent yn bodloni polisïau cynllunio lleol neu genedlaethol. Fodd bynnag, pan y'u galwyd i'r pwyllgor cynllunio, cymeradwyodd y pwyllgor nifer o'r ceisiadau hyn—fel y dangosir gan y nifer uchel o benderfyniadau a wnaeth aelodau yn groes i gyngor swyddogion. Mae

[4] Ym mis Tachwedd 2014, mabwysiadodd Llywodraeth Cymru Fframwaith Perfformiad Cynllunio sy'n cynnwys cyfres o fesurau perfformiad a thargedau i Awdurdodau Cynllunio Lleol adrodd arnynt.

[5] Llywodraeth Cymru, Adroddiad Perfformiad Blynyddol Cynllunio Cymru Gyfan 2018–19, Rhagfyr 2019

gwella perfformiad y pwyllgor a sicrhau bod yr aelodau yn deall y polisïau cynllunio yn well, hyfforddiant parhaus, a darparu cyfleoedd dysgu a datblygu i'r aelodau, yn bwysig.

**Arddangosyn 2: Penderfyniadau a wnaed gan aelodau yn groes i argymhellion swyddogion**

| Penderfyniadau a wnaed gan aelodau yn groes i Argymhelliad Swyddogion (%)—Blaenau Gwent | | Cyfartaledd Cymru (%) | Safle |
|---|---|---|---|
| Ch1 2021–22 | 33% | 15.38% | $24^{ain}$ |
| Ch2 2021–22 | 40% | 10% | $22^{ain}$ ** |
| Ch3 2021–22 | 80% | 13% | $24^{ain}$ * |
| Ch4 2021–22 | 43% | Ddim ar gael | Ddim ar gael |
| Ch1 2022–23 | 16.5% | Ddim ar gael | Ddim ar gael |
| Ch2 2022–23 | 0% | Ddim ar gael | Ddim ar gael |

* Yn dynodi un Awdurdod Cynllunio Lleol na chyflwynodd ddata chwarterol.
** Yn dynodi dau Awdurdod Cynllunio Lleol na chyflwynodd ddata chwarterol.

36 Cafodd aelodau y Pwyllgor Cynllunio hyfforddiant priodol yn rhan o'u cwrs cynefino. Ym mis Mehefin 2022, cafodd aelodau y Pwyllgor Cynllunio hyfforddiant ar y sail ddeddfwriaethol ar gyfer cynllunio, Polisïau Cynllunio, Rheoli Datblygu ac ar god ymddygiad aelodau. Hefyd, ym mis Medi 2022, cynhaliwyd hyfforddiant ar gynllunio ar gyfer yr aelodau hynny nad ydynt yn aelodau pwyllgor. Mae'r hyfforddiant hwn yn bwysig oherwydd y gall aelodau alw ceisiadau cynllunio i'r pwyllgor drwy gynllun dirprwyo y Cyngor, ond mae'n rhaid i alwadau a elwir i mewn fod yn seiliedig ar ystyriaethau cynllunio perthnasol.

37 Mae aelodau y Pwyllgor Cynllunio yn awyddus i ddysgu ac maent yn ceisio cymorth a chyngor gan swyddogion yn rhagweithiol. Mewn ymateb, trefnodd

swyddogion sesiynau briffio ar Dai Amlfeddiannaeth, Ffosffadau a Gorfodi. Mae hyfforddiant wedi ei drefnu yn y dyfodol ar Adran 106[6].

38 Mae pob agenda y Pwyllgor Cynllunio yn cynnwys eitem ar hyfforddiant aelodau a chyfarwyddiadau. Mae hyn yn rhoi ffordd ffurfiol i aelodau godi unrhyw anghenion hyfforddi ychwanegol.

39 Mae Cadeirydd presennol y Pwyllgor Cynllunio yn wybodus am weithdrefnau y pwyllgor, materion cynllunio ac mae'n rheoli cyfarfodydd y pwyllgor yn dda. Mae'r Cadeirydd yn rhagweithiol ac, ochr yn ochr â swyddogion, mae'n ceisio gwelliannau i drefniadau llywodraethu a threfniadau ategol y Pwyllgor Cynllunio.

40 Er y bu gwelliannau sylweddol ym mherfformiad y Pwyllgor Cynllunio ers yr etholiadau lleol ym mis Mai 2022, mae risg o hyd bod cynnal gwelliant o'r fath yn dibynnu'n ormodol ar ymddygiad a gweithredoedd unigolion ac nad oes trefniadau llywodraethu gwell sy'n cyd-fynd â hyn i gefnogi'r Pwyllgor.

41 Mae'n galonogol felly bod y gwasanaeth yn cymryd camau i wella'r trefniadau llywodraethu drwy adolygu ei gynllun dirprwyo a'r protocol cynllunio. Mae angen i unrhyw drefniadau newydd fod yn gadarn, gan ddarparu fframwaith gweithredol cryf i'r Pwyllgor Cynllunio a'i aelodaeth.

42 Roedd swyddogion yn ymwybodol o berfformiad blaenorol y Pwyllgor Cynllunio o ran penderfyniadau a wnaed yn groes i argymhellion swyddogion ac roeddent yn ymdrechu i fynd i'r afael â hyn. Er enghraifft, yn 2021, dechreuodd y gwasanaeth adolygiad mewnol. Edrychodd yr adolygiad ar y prif gamau o ymdrin â chais cynllunio: swyddogaeth swyddogion, aelodau'r pwyllgor cynllunio ac aelodau nad ydynt yn aelodau pwyllgor, tynnodd sylw at arferion gorau ac unrhyw ddiffygion gan y Cyngor. Ymddengys inni fod yr adolygiad yn briodol onest a hunanystyriol.

43 Fodd bynnag, oedwyd y gwaith hwn oherwydd newidiadau personél ac fe'i hailddechreuwyd yn 2022 yn dilyn yr etholiadau lleol. Mae dwy ddogfen allweddol sy'n ddarostyngedig i'r adolygiad parhaus hwn: y cynllun dirprwyo; a phrotocol cynllunio a all, gyda'i gilydd, ddarparu gweithdrefnau a threfniadau cadarn i'r cyngor a'r pwyllgor cynllunio os ydynt wedi eu hysgrifennu'n dda ac os cânt eu dilyn gan bawb. Rydym yn argymell bod y Cyngor yn blaenoriaethu tasg y gwasanaeth cynllunio o gwblhau'r gwaith pwysig hwn.

44 Wrth gynnal yr adolygiad hwn, gwnaethom edrych ar gynllun dirprwyo presennol y Cyngor. Gwnaethom nodi y gellir penderfynu ar unrhyw gais cynllunio a gyflwynir gan aelod etholedig neu gan swyddog o'r gwasanaeth cynllunio o dan bwerau dirprwyedig swyddogion ac nid gan y Pwyllgor Cynllunio. Er y caniateir y dull hwn, mae'n arfer da i'r Pwyllgor Cynllunio benderfynu ar geisiadau o'r fath er mwyn diogelu swyddogion ac aelodau rhag unrhyw wrthdaro buddiannau canfyddedig ac i hybu annibyniaeth a thryloywder.

45 Mae diwylliant o ddysgu yn bodoli yn y gwasanaeth ac mae swyddogion yn defnyddio rhwydweithiau proffesiynol i ddysgu a rhannu. Mae sgyrsiau gydag

[6] QG15-007.pdf (senedd.wales)

Awdurdod Cynllunio Lleol eraill wedi llywio penderfyniadau ynghylch y system TG newydd a chynlluniau i gryfhau'r pwyllgor cynllunio. Mae'r gwasanaeth hefyd yn edrych ar drefniadau a gweithdrefnau Awdurdodau Cynllunio Lleol eraill i lywio newidiadau i'r cynllun dirprwyo a'r protocol cynllunio. Pan fo hynny'n briodol, mae'r gwasanaeth hefyd yn gofyn am gyngor oddi wrth gydweithwyr mewnol. Er enghraifft, cynnwys y tîm cyfreithiol cyn cyflwyno newidiadau i'r cynllun dirprwyo a phrotocol cynllunio i'r gweithgor cyfansoddiadol.

# Atodiad 1


## Perfformiad y gwasanaeth cynllunio

Mae'r atodiad hwn yn nodi data perfformiad ar gyfer y gwasanaeth cynllunio. Mae'n seiliedig ar:

- Adroddiad Perfformiad Blynyddol Cynllunio Cymru Gyfan 2018–19 Llywodraeth Cymru sy'n darparu data cymharol o'u cymharu ag Awdurdodau Cynllunio Lleol eraill. 2018–19 yw'r data perfformiad blwyddyn gyfan diweddaraf sydd ar gael ac fe'u cyflwynir yn y golofn gyntaf ym mhob arddangosyn isod.
- Y pedair set o ffurflenni chwarterol diweddaraf a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru gan y Cyngor. Dangosir perfformiad chwarterol yng ngholofnau oren pob siart.


Ar gyfer 2018–19 y mae'r data cymharol diweddaraf a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru. Felly ni allwn benderfynu sut mae'r Cyngor wedi gwella o'i gymharu ag Awdurdodau Cynllunio Lleol eraill ers hynny.

**Arddangosyn 3: yr amser cyfartalog i benderfynu ar BOB cais cynllunio, mewn dyddiau**





Yn 2018–2019, perfformiad y Cyngor oedd 70.8 diwrnod, sy'n well na chyfartaledd Cymru o 80.7 diwrnod, ac roedd yn y 13eg safle allan o 25 o Awdurdodau Cynllunio Lleol.

**Arddangosyn 4: yr amser cyfartalog i benderfynu ar geisiadau cynllunio MAWR, mewn dyddiau**





Yn 2018–19, perfformiad y Cyngor oedd 138 diwrnod, sy'n llawer gwell na chyfartaledd Cymru o 231.8 diwrnod, ac roedd yn y 9fed safle allan o 25 o Awdurdodau Cynllunio Lleol. Cynhaliodd y Cyngor ei berfformiad rhwng Chwarter 3 2021–22 a Chwarter 2 2022–23. Mae'r cofnod o sero ar gyfer Chwarter 1, 2022–23, yn adlewyrchu'r ffaith na chyhoeddodd y Cyngor unrhyw hysbysiadau penderfynu ar gyfer ceisiadau mawr yn ystod y chwarter hwnnw.

**Arddangosyn 5: yr amser cyfartalog a gymerir i gymryd camau gorfodi Cadarnhaol, mewn dyddiau**




Yn 2018–19, perfformiad cyfartalog y Cyngor oedd 282.3 diwrnod. Roedd hyn yn waeth na chyfartaledd Cymru o 184.6 diwrnod ac roedd y Cyngor yr 22[ail] safle allan o 25 o Awdurdodau Cynllunio Lleol. Bu gostyngiad sylweddol mewn perfformiad yn Chwarter 3 2021–22, ond bu gwelliant sylweddol yn y perfformiad yn Chwarter 4 2021–22 pryd yr oedd y perfformiad yn well nag ydoedd yn 2018–19. Mae'r cofnod o sero ar gyfer Chwarter 2, 2022–23, yn adlewyrchu'r ffaith nad oedd achosion gweithredu cadarnhaol yn ystod y chwarter hwnnw.

**Arddangosyn 6: canran yr achosion gorfodi yr ymchwiliwyd iddynt o fewn 84 diwrnod**





Yn 2018–19, ymchwiliodd y gwasanaeth i 97.4% o'r achosion gorfodi o fewn y 84 diwrnod a bennwyd gan Lywodraeth Cymru. Roedd hyn yn llawer gwell na chyfartaledd Cymru o 76.9% ac roedd y Cyngor yn y 4[ydd] safle.

**Arddangosyn 7: yr amser cyfartalog a gymerir i ymchwilio i achos gorfodi, mewn dyddiau**




Ers newid ei dangosyddion fframwaith perfformiad yn 2017, nid yw Llywodraeth Cymru bellach yn adrodd ar yr amser cyfartalog a gymerir i ymchwilio i achosion gorfodi. O ganlyniad i hynny, nid oes data perfformiad blwyddyn gyfan ar gael ar gyfer y mesur perfformiad hwn ar gyfer 2018–19. Gan fod cynghorau'n parhau i gyflwyno'r data hyn, rydym wedi cynnwys data y ffurflenni chwarterol yma.

**Arddangosyn 8: canran yr Aelodau wnaeth benderfyniadau yn groes i gyngor swyddogion**



Yn 2018–19, gwnaeth aelodau 28.6% o'u penderfyniadau yn groes i gyngor swyddogion. Roedd hyn yn llawer gwaeth na chyfartaledd Cymru o 9.2% ac roedd y Cyngor yn y 24ain safle allan o 25 o Awdurdodau Cynllunio Lleol. Bu gwelliant yn y perfformiad o Chwarter 1, 2022–23, pryd sefydlwyd y Pwyllgor Cynllunio newydd.

Archwilio Cymru
1 Cwr y Ddinas
Caerdydd CF10 4BZ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.